

Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gymuned Tonyrefail

Dyddiad:	Dydd Mercher 6 Tachwedd 2024
Amser	14:15
Math	Wyneb yn wyneb

Yn bresennol		
Enw	Llythrennau cyntaf yr enw	Teitl
Lisa Howell	LH	Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif
Grace Zecca-Hanagan	GZH	Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif
Gareth Pope	GP	Pennaeth Ysgol Gymuned Tonyrefail
Dd/B	Dd/B	Cyngor Ysgol Gymuned Tonyrefail

1. Croeso a Chyflwyniadau

Cyflwynodd y swyddogion a oedd yn bresennol eu hunain i'r Cyngor Ysgol a diolchwyd i'r aelodau am ddod i'r cyfarfod. Cyflwynodd aelodau'r Cyngor Ysgol eu hunain.

2. Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Rhoddodd LH drosolwg cryno o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn i'r Cyngor Ysgol, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

3. Cwestiynau'r Cyngor Ysgol

Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Gymuned Tonyrefail i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Mae'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn ynghyd â'u hymateb, lle bo angen. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd sticeri i Gyngor Ysgol Gymuned Tonyrefail gydag wynebau trist, ansicr a hapus a gofynnwyd iddyn nhw ddewis sticer a oedd yn cynrychioli sut roedden nhw'n teimlo am y cynnig.

Rhif	Cwestiwn/Sylw	Ymateb
1.	Pam ydych chi'n cau Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg?	<p>Mae yna nifer o resymau. Mae niferoedd disgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg yn gostwng ac mae rhagamcanion yn dangos eu bod yn parhau i ostwng dros y blynyddoedd nesaf felly mae llawer o leoedd gwag yn yr ysgol. O ganlyniad, mae dosbarthiadau grŵp blwyddyn cymysg, a all fod yn eithaf heriol i'w haddysgu.</p> <p>Mae Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg yn hen adeilad ysgol ac mae gyda hi rai materion hygyrchedd nad oes modd</p>

		eu gwella. Serch hynny, mae Ysgol Gymuned Tonyrefail yn ysgol newydd gwbl hygyrch sy'n addas ar gyfer y 21 ^{ain} ganrif.
2.	Pe bai Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg yn cau, beth fydd yn digwydd i'r adeilad?	Dydyn ni ddim yn gwybod eto, ac mae'n anodd gwneud y penderfyniad hwnnw heb wybod a yw'r cynnig am fynd rhagddo. Mae ysgolion eraill sydd wedi cau yn flaenorol wedi cael eu defnyddio ar gyfer canolfannau cymunedol a rhai tai newydd. Gofynnir i'r gymuned leol a oes gyda nhw ddefnydd i'r adeilad os nad oes gyda nhw, a ellid ei werthu.
3.	Pa mor fawr yw Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg?	Mae lle i 157 o ddisgyblion oedran ysgol statudol (derbyn i flwyddyn chwech) yn Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg.
4.	A yw Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg yn adeilad rhestredig?	Nac ydy, nid yw'n adeilad rhestredig. Ond mae hwnnw'n gwestiwn da iawn.
5.	Byddai teithio i Ysgol Gymuned Tonyrefail yn anodd.	Dywedodd aelodau'r Cyngor Ysgol eu bod nhw'n teithio i'r ysgol mewn ystod o ffyrdd, gan gynnwys cerdded a dal y bws. Dywedodd y rhai sy'n byw ger Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg eu bod nhw naill ai'n cerdded neu'n dal bws gwasanaeth. Dywedwyd wrth y Cyngor Ysgol am gludiant o'r cartref i'r ysgol, ac os ydych chi'n byw o fewn pellter i'r ysgol, bydd modd i chi gael cludiant o'r cartref i'r ysgol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae llwybr cerdded diogel i ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg gerdded i Ysgol Gymuned Tonyrefail. Cadarnhawyd na fydd gan unrhyw ddisgybl yn nalgylch Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg ddim hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.
6.	A fydd i'n anodd i ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg ddod yma?	Mae llawer o blant o'r gymuned honno'n cael mynediad at eu haddysg uwchradd yn Ysgol Gymuned Tonyrefail ac mae rhai eisoes yn cael mynediad at eu haddysg gynradd yma, ond byddai gyda nhw daith gerdded hirach i'r ysgol.
7.	A fyddai'r plant yma eisoes yn dod yma ar gyfer blwyddyn saith?	Byddai.

8.	Dydw i ddim yn hoffi'r syniad o ysgol pob oed.	Beth dydych chi ddim yn ei hoffi am eich ysgol bresennol? Rydyn ni'n eu galw nhw'n ysgolion pob oed. Mae yna lawer o fanteision i ysgolion pob oed, ond rydyn ni'n gwerthfawrogi eich bod chi'n cymryd yr amser i ddod i siarad â ni heddiw a rhannu eich barn.
----	--	--

4. Sylwadau i Gloi

Diolchwyd i'r Cyngor Ysgol am gymryd rhan yn y broses ymgynghori yma a hysbyswyd y byddai cyfle dros yr wythnosau nesaf iddyn nhw fyfyrion ar y cwestiynau ac ymatebion a chyflwyno cwestiynau ychwanegol os bydd angen.

Mae aelodau'r Cyngor Ysgol wedi cael eu hannog i gymryd rhan drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk.

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:45

5. Ymgysylltiad Disgyblion – Ymarfer 'Dweud Eich Dweud'

Yn rhan o'r ymarfer ymgysylltu, rhoddwyd cyfle i bob disgybl 'dweud ei ddweud'. Gadawyd sticeri a nodiadau post-it gyda'r ysgol gydag wynebau trist, ansicr a hapus er mwyn i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses ymgynghori wneud hynny. Gofynnwyd iddyn nhw ddewis sticer a oedd yn cynrychioli sut yr oedden nhw'n teimlo am y cynnig neu ysgrifennu eu sylwadau a'u safbwyntiau mewn perthynas â'r cynnig.